# Canllaw i Bensiynwyr

## Arweiniad byr i'r broses sy'n dilyn eich Ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

**Ebrill 2021**

# Contents

**Ymddeoliad o CPLlL**

**Cyflwyniad**

**Cysylltwch â Ni**

**Sut bydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?**

**Sut bydd fy lwmp swn yn cael ei dalu?**

**Nodwch**

**Beth am Bensiwn y Wladwriaeth?**

**Beth yw'r swm Pensiwn Cyfwerth yn sgil  Contractio Allan (COPE)?**

**Beth yw Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)?**

**A fydd treth incwm yn cael ei didynnu o'm pensiwn?**

**A fyddaf yn derbyn slip tâl pensiwn bob mis?**

**Beth os ydw i'n penderfynu mynd I fyw dramor?**

**Beth os yw fy manylion yn newid?**

**A fydd fy mhensiwn yn cael ei hailbrisio yn ystod fy ymddeoliad?**

**A fyddaf yn derbyn hysbysiad P60 pob blwyddyn?**

**Beth fydd yn digwydd i'm pensiwn os  byddaf yn cael swydd arall?**

**Beth sy'n digwydd I fy mhensiwn os byddaf yn marw ar ôl ymddeol?**

**Nodwch**

**Beth fydd fy ngoroeswyr yn ei dderbyn yn dilyn fy marwolaeth?**

**Y Proses Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)**

**Eich Pensiwn Ar-Lein**

Sut y gallaf gofrestru?

Cysylltiadau Defnyddiol

Ymholiadau ynhylch Pensiwn y Wladwriaeth

Y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau

Ymholiadau Treth Incwm

Diogelu Data

Menter Twyll Genedlaethol

# Ymddeoliad o CPLlL

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn egluro mewn termau syml, y trefniadau ar gyfer talu eich buddion pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Paratowyd y nodiadau cyfarwyddo hyn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol hefyd os ydych yn derbyn pensiwn goroeswr yn dilyn marwolaeth eich priod, partner sifil cofrestredig, partner cymwys a oedd yn cyd-fyw â chi, neu oherwydd eich bod yn blentyn cymwys.

Ni all y canllaw hwn gynnwys yr holl amgylchiadau personol ac yn wyneb unrhyw anghydfod ynglŷn a'ch buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf.  Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi hawliau cytundebol neu statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

## Cysylltwch â Ni

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch talu eich buddion, mae croeso ichi gysylltu â ni drwy lythyr, drwy ffonio neu drwy e-bostio:
**pensiynau@sirgar.gov.uk**

Os ydych yn dymuno ysgrifennu atom ein cyfeiriad yw:

**Cronfa Bensiwn Dyfed**
**Adeilad 2**
**Parc Dewi Sant**
**Heol Ffynnon Job**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HB**

Yn ogystal â'r canllaw hwn, efallai y byddai'n fuddiol ichi ymweld â'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

## Sut bydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu ar ddiwedd pob mis, ar ddiwrnod gwaith ola'r mis. Mae'r dyddiadau talu i'w gweld ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

Bydd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i Fanc neu Gymdeithas Adeiladu o'ch dewis chi. Bydd y Gronfa'n cadarnhau'r dyddiadau talu yn y man. Felly, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi Rhif Cyfrif a Chod Didoli cywir i ni pan fyddwch yn ymddeol.

Bydd taliad cyntaf eich pensiwn yn berthnasol i'r cyfnod o ddyddiad eich ymddeoliad hyd at ddiwedd y mis, neu hyd at ddiwedd y mis canlynol, yn dibynnu ar eich dyddiad ymddeol.

Nodwch os gwelwch yn dda **na all** Cronfa Bensiwn Dyfed dalu eich pensiwn yn uniongyrchol i **Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post.**

## Sut bydd fy lwmp swn yn cael ei dalu?

Telir eich lwmp swm yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu o'ch dewis. Gallwch ddewis talu eich lwmp swm i gyfrif gwahanol os ydych yn dymuno hynny.

Gwneir y taliad yn fuan ar ôl diwrnod olaf eich cyflogaeth ar yr amod eich bod wedi dychwelyd yr holl ffurflenni a thystysgrifau angenrheidiol. Sylwch er hynny, y gall trosglwyddo cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) o'r darparwr mewnol beri oedi o ran y taliad hwn.

Mae eich lwmp swm yn daliad di-dreth, felly fe'ch cynghorir yn gryf i ofyn am Gyngor Ariannol Annibynnol er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr holl ddewisiadau o ran buddsoddi eich lwmp swm.

**Nodwch**

Mae modd ichi weld manylion eich pensiwn ar-lein drwy gyfleuster **Fy Mhensiwn Ar-lein**. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **tudalen 9**.

## Beth am Bensiwn y Wladwriaeth?

Mae’r buddion sy’n daladwy o dan y CPLlL yn ychwanegol i unrhyw bensiwn sy’n daladwy o dan Gynllun y Wladwriaeth. I gael gwybodaeth ynglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl cael eich Pensiwn gan y Wladwriaeth neu i dderbyn amcangyfrif, cysylltwch os gwelwch yn dda â’r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) drwy ffonio **0800 731 7936,** neu edrychwch ar ei gwefan: **www.gov.uk/cymraeg**

Os ydych yn ymddeol cyn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth, **NI** fydd unrhyw Yswiriant Gwladol yn cael ei didynnu o'ch pensiwn. Felly, byddai'n ddoeth gofyn i’r AGP gadarnhau a ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i fod yn gymwys i gael Pensiwn Sylfaenol llawn gan y Wladwriaeth. Os nad ydych, mae’n bosibl y bydd rhaid ichi drefnu bod taliadau ychwanegol yn cael eu gwneud.

Gan y bu cryn newid o ran pensiwn y wladwriaeth, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gael rhagor o wybodaeth (ceir manylion cyswllt ar **dudalen 10**).

## Beth yw'r swm Pensiwn Cyfwerth yn sgil Contractio Allan (COPE)?

Hwn yw'r isafswm pensiwn amcangyfrifedig y mae'n rhaid i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei dalu os oeddech yn aelod o'r cynllun cyn 6ed Ebrill 2016 gan fod y Cynllun hyd at y dyddiad hwn wedi'i gontractio allan o'r Pensiwn Gwladol ychwanegol (a adwaenid fel Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P) neu a adwaenid gynt fel y Cynllun Pensiwn Enillion Gwladol). Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnwys eich swm COPE amcangyfrifedig ar unrhyw ddatganiad Pensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nodwch y bydd y swm amcangyfrifedig hwn yn cael ei dalu fel rhan o'ch pensiwn blynyddol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. **NI fyddwch yn derbyn taliad ychwanegol mewn perthynas â'r swm hwn.** Os ydych wedi bod yn aelod o fwy nag un cynllun 'contractio allan', bydd y swm COPE amcangyfrifedig a roddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos y cyfansymiau COPE mewn perthynas â'r holl gynlluniau hynny. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed.

## Beth yw Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)?

Mae hyn yn rhan o'r swm COPE, gan ei fod yn ymwneud â'r aelodaeth o'r cynllun rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997, gan gyfeirio at yr hyn y byddech wedi'i ennill o dan y Cynllun Pensiwn Enillion Gwladol, pe na fyddech wedi bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y cyfnod hwnnw. Nodwch **NAD** yw hyn yn daliad ychwanegol gan ei fod yn cael ei gynnwys fel rhan o'ch pensiwn blynyddol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ar ôl cyrraedd oedran derbyn pensiwn y wladwriaeth, bydd unrhyw godiadau yn y rhan o'ch pensiwn sy'n ymwneud â GMP cyn 6 Ebrill 1988 yn cael eu talu ichi gyda Phensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, bydd unrhyw godiadau o ran GMP o 6 Ebrill 1988 yn cael eu talu fel a ganlyn:

- caiff codiad o hyd at 3% ei dalu yn y pensiwn a gewch o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- caiff codiad sydd dros 3% ei dalu yn y pensiwn a gewch gan y Wladwriaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed os gwelwch yn dda.

## A fydd treth incwm yn cael ei didynnu o'm pensiwn?

Mae eich pensiwn CPLlL yn drethadwy, ac mae'n rhaid i Gronfa Bensiwn Dyfed ddefnyddio'r côd treth a bennir gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CTEM). Bydd pa un a ydych yn talu treth wrth ymddeol neu beidio yn dibynnu ar swm eich pensiwn a'ch amgylchiadau personol.

Pan fyddwch yn ymddeol, dylech dderbyn copi o'ch P45. Mae'n rhaid i'ch Cyflogwr anfon P45 ymlaen yn uniongyrchol i Gronfa Bensiwn Dyfed, a fydd yn nodi'r côd treth priodol yn erbyn eich pensiwn o dan drefniant dros dro arbennig. Bydd y Gronfa wedyn yn rhoi gwybod i CTEM eich bod yn derbyn eich pensiwn a bydd côd treth newydd yn cael ei roi. Os na cheir gwybod eich cod treth yn syth, bydd côd dros dro yn cael ei ddefnyddio hyd nes y ceir y cod priodol.

## A fyddaf yn derbyn slip tâl pensiwn bob mis?

NI fyddwch yn derbyn slip tâl pensiwn yn fisol, oni bai bod gwerth eich pensiwn net yn amrywio o **£5.00** neu ragor.  Byddwch yn derbyn slip tâl pan fyddwch yn ymddeol gyntaf, ond wedi hynny byddwch ond yn derbyn un yn mis Ebrill bob blwyddyn, yn rhoi manylion unrhyw gynnydd yn eich budd pensiwn.

Os ydych wedi cofrestru i wasanaeth **Fy Mhensiwn Ar-lein**, gallwch cyfeirio at y wybodaeth hyn fel a phryd byddwch yn dymuno.   I gael rhagor o wybodaeth, gweler **tudalen 9**.

## Beth os ydw i'n penderfynu mynd i fyw dramor?

Os ydych yn penderfynu ymfudo, fe barheir i dalu eich pensiwn i'ch cyfrif banc/ cymdeithas adeiladu cyfredol oni bai eich bod yn dymuno iddo gael ei dalu i gyfrif tramor.  Nodwch os gwelwch yn dda y codir ffi fechan am drafodion tramor mewn perthynas â chyfnewid arian cyfred a throsglwyddo taliadau.

## Beth os yw fy manylion yn newid?

Os ydych yn newid eich cyfeiriad neu eich cyfrif banc/cymdeithas adeiladu rhaid i chi roi gwybod yn syth i Gronfa Bensiwn Dyfed yn **ysgrifenedig** fel y gellir diweddaru eich cofnod.

Dylid rhoi gwybod am newidiadau i fanylion cyfrifon banc/cymdeithas adeiladu cyn canol y mis pryd y daw'r newidiadau i rym; neu gall eich pensiwn gael ei dalu i'ch cyfrif blaenorol.  Nodwch os gwelwch yn dda fod yn rhaid i'r cyfrif banc/cymdeithas adeiladu fod yn eich enw chi neu mewn enwau ar y cyd.

I newid eich cyfeiriad neu fanylion eich cyfrif banc/cymdeithas adeiladu, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed os gwelwch yn dda a gofynnwch am y ffurflen briodol, neu diweddarwch eich manylion ar-lein drwy ddefnyddio cyfleuster **Fy Mhensiwn Ar-lein**.  Gweler **tudalen 9** i gael rhagor o fanylion.

## A fydd fy mhensiwn yn cael ei hailbrisio yn ystod fy ymddeoliad?

Mae buddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu diogelu'n llwyr rhag chwyddiant ac yn cael ei ailbrisio drwy gyfrwng Deddf (Cynnydd) Pensiynau 1971.

Felly, bydd eich pensiwn yn cael ei ailbrisio bob mis Ebrill yn unol â'r mynegai costau byw perthnasol.

Os nad ydych wedi cofrestru ar-lein, byddwch yn cael datganiad ar ddiwedd mis Ebrill bob blwyddyn sy'n dangos unrhyw newid yng ngwerth eich buddion pensiwn. Neu gallwch weld y manylion hyn ar-lein ar **Fy Mhensiwn Ar-lein** (gweler **tudalen 9** i gael rhagor o fanylion).

## A fyddaf yn derbyn hysbysiad P60 pob blwyddyn?

Bob blwyddyn bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn rhoi datganiad i chi a elwir yn P60. Mae hwn yn rhoi manylion eich enillion CPLlL a'r dreth a dalwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol o Ebrill i Fawrth. Mae angen i chi gadw hwn yn ddiogel oherwydd mae cyrff eraill yn aml yn gofyn amdano fel tystiolaeth o enillion. Mae'r manylion hyn hefyd ar gael ar-lein.

## Beth fydd yn digwydd i'm pensiwn os byddaf yn cael swydd arall?

Os ydych yn cael swydd arall, bydd y pensiwn yn parhau fel y mae ac ni fydd yn cael ei adolygu, oni bai eich bod wedi ymddeol oherwydd salwch. Os digwydd hyn, rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i Gronfa Bensiwn Dyfed ar unwaith fel y gellir cynnal yr asesiad angenrheidiol.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cadw'r hawl i ostwng neu atal eich buddion os ydych wedi ymddeol oherwydd salwch ond eich bod yn ailddechrau gweithio i Lywodraeth Leol.

## Beth sy'n digwydd I fy mhensiwn os byddaf yn marw ar ôl ymddeol?

Os byddwch yn marw a chithau'n derbyn pensiwn, ni fydd eich buddion yn daladwy bellach. Bydd yn rhaid i'ch priod, partner sifil cofrestredig, partner cyd-fyw cymwys â chi, perthynas agosaf, neu'r person sy'n ymdrin â'ch ystâd hysbysu'r Gronfa Pensiwn yn syth am eich marwolaeth i osgoi unrhyw ordaliad o'ch pensiwn.

Fodd bynnag, bydd grant marwolaeth yn daladwy ar ffurf lwmp swm os byddwch yn marw ac yr ydych o dan 75 mlwydd oed. Y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r gwahaniaeth rhwng y pensiwn blynyddol wedi'i luosi â 10 a'r pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth (h.y. 10 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw swm a dalwyd eisoes).

Dylech sicrhau eich bod wedi cwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad ynghylch y Grant Marwolaeth fel y gall y Gronfa ystyried eich dymuniad wrth wneud y taliad hwn. I dderbyn ffurflen Mynegi Dymuniad ynghylch y Grant Marwolaeth, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda, neu diweddarwch eich manylion ar-lein drwy ddefnyddio cyfleuster **Fy Mhensiwn Ar-lein**. Gweler **tudalen 9** i gael rhagor o fanylion.

Os ydych yn cael pensiwn goroeswr yn dilyn marwolaeth eich priod, partner sifil cofrestredig, partner cyd-fyw cymwys neu oherwydd eich bod yn blentyn cymwys, bydd y taliadau pensiwn hyn yn darfod yn dilyn eich marwolaeth.

**Nodwch**

Os oeddech yn cael budd pensiwn arall o'r CPLlL ar 31 Mawrth 2008 neu cyn hynny, y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r gwahaniaeth rhwng y pensiwn blynyddol wedi'i luosi â 5 a'r pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth (h.y. 5 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw swm a dalwyd eisoes).

Os oedd eich buddion pensiwn wedi cael eu gohirio ar 31 Mawrth 2008, neu cyn hynny, ac yna wedi dechrau cael eu talu ar 1 Ebrill 2008, neu ar ôl hynny, y grant marwolaeth a delir os digwydd ichi farw fel aelod sy'n bensiynwr yw 5 gwaith gwerth y pensiwn namyn unrhyw arian a dalwyd eisoes.

## Beth fydd fy ngoroeswyr yn ei dderbyn yn dilyn fy marwolaeth?

Yn ogystal â grant marwolaeth posibl, bydd pensiwn goroeswr yn daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner cymwys sy'n cyd fyw â chi. Mae'r pensiwn goroeswr yn daladwy trwy gydol eu hoes.

Seilir y pensiwn goroeswr ar 1/160fed o'r pensiwn yr ydych wedi cronni. Fodd bynnag, os ydych yn cyd-fyw efo partner cymwys, seilir pensiwn y goroeswr ar yr aelodaeth yr ydych wedi'i chronni o 6 Ebrill 1988, oni bai eich bod wedi talu cyfraniadau ychwanegol er mwyn adfer unrhyw gyfnod o aelodaeth cyn y dyddiad yma.

**I gael rhagor o wybodaeth am dalu pensiwn goroeswr i'ch partner cymwys cyd-fyw, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

Mae'n bosib y bydd gan eich plentyn/ plant cymwys hefyd hawl i dderbyn pensiwn goroeswr, ar yr amod eu bod dan 18 mlwydd oed, neu mewn addysg barhaus amser llawn neu'n derbyn hyfforddiant galwedigaethol amser llawn ac o dan 23 blwydd oed.

Gall fod modd rhoi ystyriaeth arbennig os oes gennych blentyn sy'n analluog yn gorfforol neu yn feddyliol, ac y gellir talu'r pensiwn am y cyfnod y bydd yr anabledd yn parhau. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed os gwelwch yn dda.

## Y Proses Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)

Os oes gennych gŵyn neu anghydfod yn erbyn Cronfa Bensiwn Dyfed neu yn erbyn eich cyflogwr blaenorol mewn perthynas â thalu eich buddion pensiwn, neu yn ymwneud ag unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â'ch buddion CPLlL, mae darpariaeth ar gyfer ei ddatrys a elwir yn Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau (IDRP).

I gael rhagor o wybodaeth, neu i gael ffurflen gais cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed os gwelwch yn dda.

## Eich Pensiwn Ar-Lein

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi datblygu ei wasanaeth drwy gyflwyno cyfleuster sef **Fy Mhensiwn Ar-lein**.

Rhaglen ryngrwyd yw hon a fydd yn eich galluogi i gyrchu gwybodaeth am eich pensiwn yn ddiogel ar-lein drwy wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

Drwy fewngofnodi i **Fy Mhensiwn Ar-lein**, byddwch yn gallu:

- diweddaru eich manylion personol, megis manylion eich cyfrif banc a'ch cyfeiriad cartref;
- gweld manylion eich pensiwn a monitro eich taliadau;
- gweld dyddiadau eich taliadau;
- gweld eich slipiau talu, eich dogfennau P60 a'r cynnydd blynyddol yn eich pensiwn.
- cael amcan o werth eich buddion marwolaeth.

### Sut y gallaf gofrestru?

Os ydych yn dymuno cofrestru ar gyfer cyfleuster **Fy Mhensiwn Ar-lein**, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed:

E-bost: **pensiynau@sirgar.gov.uk**

## Cysylltiadau Defnyddiol

### Ymholiadau ynhylch Pensiwn y Wladwriaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Pensiwn y Wladwriaeth cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP):

Ffôn: **0800 731 7936**
Gwefan: **www.gov.uk/cymraeg**

### Y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau

Os ydych wedi colli manylion am gynllun pensiwn ac angen cymorth i gysylltu â darparwr, efallai y gall Gwasanaeth Olrhain Pensiynau eich helpu. Mae gan y gwasanaeth fynediad at dros 200,000 o gynlluniau ac mae'n rhad ac am ddim. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Ffôn: **0800 731 0193**
Gwefan: **www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn**

### Ymholiadau Treth Incwm

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'ch treth dylech gysylltu â'ch swyddfa dreth, gan ddatgan eich rhif Yswiriant Gwladol a cyfeirnod Cronfa Bensiwn Dyfed: **615/D6065C**

Ffôn: **0300 200 1900**
Gwefan: **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

## Diogelu Data

Cyngor Sir Caerfyrddin yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Dyfed a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

## Menter Twyll Genedlaethol

Noder fel pensiynwr, bod yn rhaid i ddata cyflogres allweddol gael ei roi i gyrff sy'n gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll. Am ragor o fanylion, gweler gwefan Swyddfa Archwilio Cymru: **www.wao.gov.uk** neu cysylltwch â Martin Morgan, Dirprwy Rheolwr Pensiynau, drwy ffonio 01267 224 452 neu drwy gyru ebost at MMorgan@sirgar.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu i Gronfa Bensiwn Dyfed, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3HB.